# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2013** |
| Amser: | **09:00 - 10:42** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_19_03_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**William Powell (Cadeirydd)**
**Russell George**
**Joyce Watson**
**Elin Jones**

Tystion:

Staff y Pwyllgor:

**Naomi Stocks (Clerc)**
**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**
**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)**

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at;

- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a
- Chadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i geisio eu barn am y ddeiseb.

**2.2P-04-460 Moddion nid Maes Awyr**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Iechyd; a
- Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i geisio eu barn am y ddeiseb.

**2.3P-04-461 Achub Pwll Padlo Pontypridd**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- geisio briff cyfreithiol ar y ddeiseb; ac i
- ysgrifennu at Gyngor Rhondda Cynon Taf i holi pam na chafodd y pwll padlo ei gynnwys yn y cynlluniau ailddatblygu.

**2.4P-04-462 Gwahardd codi baner y Deyrnas Unedig ar adeiladau swyddogol yng Nghymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn ceisio ei farn am y ddeiseb gan holi beth yw polisi presennol Llywodraeth Cymru ar faneri.

**2.5P-04-463 Lleihau Lefelau Halen mewn Bwyd**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i geisio briff cyfreithiol.

**2.6P-04-464 Gwneud Wenglish yn iaith gydnabyddedig swyddogol yng Nghymru, fel Sgoteg yn yr Alban!**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a phenderfynodd i beidio â bwrw ymlaen â hi, a chau'r ddeiseb.

**2.7P-04-465 Achub llaeth Cymru, a seilwaith a swyddi'r diwydiant**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn ceisio ei farn am y ddeiseb.

**2.8P-04-466 Argyfwng Meddygol – Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru.**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ceisio ei farn am y ddeiseb, gan roi copi i'r Gweinidog Iechyd a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**2.9P-04-467 Arholiadau ym mis Ionawr**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg yn ceisio ei farn am y ddeiseb.

### 2.10 P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i geisio ei barn am y ddeiseb.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-04-333 Rhoi diwedd ar esgeuluso a gadael ceffylau a merlod drwy orfodi deddfwriaeth ar ddefnyddio microsglodion

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gofyn a fyddai modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganfyddiadau'r ymgynhoriad; a'r
- Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i fynegi pryderon am ddod â'r Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol i ben.

### 3.2P-04-383 Yn Erbyn Dynodiad Parth Perygl Nitradau ar gyfer Llyn Llangors

Yn wyneb diffyg ymateb gan y deisebwr, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

### 3.3P-04-390  Dynodi Gwarchodfa Natur Penrhos Caergybi (parc arfordir) yn Warchodfa Natur Genedlaethol

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan nad yw'r safle'n bodloni'r meini prawf i gael ei ddynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol.

### 3.4P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i holi am eglurhad o'r amserlen i ailedrych ar y mater, ac i holi a fyddai modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau i'r Pwyllgor.

### 3.5P-04-417  Achubwch Draeth Morfa ac ataliwch Lwybrau Troed Cyhoeddus 92 a 93 rhag cau

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn amlygu pryderon y deisebwr am y Gorchymyn i gau'r llwybrau, ac i holi pryd y mae'n disgwyl i'r Arolygiaeth Gynllunio wneud penderfyniad ar y gorchmynion.

### 3.6P-04-422 Ffracio

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Tai ac Adfywio yn amlygu pryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y diffyg canllawiau o ran ffracio; a'r
- Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn gofyn i gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf wrth iddo ystyried y mater.

### 3.7P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn holi a fyddai modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y datblygiadau ar y mater hwn.

**3.8P-04-439 Diogelu coed hynafol a choed treftadaeth Cymru ymhellach**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru i holi sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r materion a godwyd gan y ddeiseb.

**3.9P-04-445 Achub ein cŵn a chathod yng Nghymru rhag cael eu lladd ar y ffyrdd**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Companion Animal Welfare Council i geisio ei farn am y ddeiseb.

**3.10 P-04-346 Gofal di-dâl i blant 3 a 4 oed yng Nghymru**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i holi a fyddai modd i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am y peilot, gan bwysleisio bod y ddeiseb gan rieni o Fro Morgannwg.

**3.11 P-04-437 Gwrthwynebu cofrestru gorfodol ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am gyhoeddiad y dadansoddiad o'r ymgynghoriad.

**3.12 P-04-443 Hanes Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i geisio barn y deisebwr ar ohebiaeth y Gweinidog.

**3.13 P-04-362 Gwasanaethau Ambiwlans ym Mynwy**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am ganfyddiadau'r adolygiad.

**3.14 P-04-395 Dylai Ambiwlans Awyr Cymru gael arian gan y llywodraeth**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb, ac yn wyneb ymateb y deisebwr cytunodd i gau'r ddeiseb.

**3.15 P-04-367 Achub ein Gwasanaethau Ysbyty**

**3.16 P-04-394 Achub ein Gwasanaethau - Ysbyty Tywysog Philip**

**3.17 P-04-430 Y bwriad i gau Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod**

**3.18 P-04-431 Preswylwyr Sir Benfro yn erbyn Toriadau i Wasanaethau Iechyd**

**Cytunodd y Pwyllgor i ystyried P-04-367, P-04-394, P-04-430 a P-04-431 gyda'i gilydd.**

Nododd y Cadeirydd y bu ef a Joyce Watson mewn cyfarfod yn dilyn gwahoddiad gan Gyngor Tref Llanelli a Chyngor Gwledig Llanelli ddydd Iau 14 Mawrth gydag Aelod Cynulliad Llanelli a'r dau Aelod Cynulliad arall sy'n cynrycholi rhanbarth Canol a Gorllewin Cymru i rannu eu barn am gynigion ailstrwythuro Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a'r modd y cyfeiriodd y Cyngor Iechyd Cymuned y rhain at y Gweinidog Iechyd.

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar bob un o'r deisebau a chytunodd i ysgrifennu at;

- Mark Drakeford yn ei rôl newydd fel y Gweinidog Iechyd, gan ei hysbysu o'r deisebau, gan amlygu'r pryderon am yr amserlen a roddwyd i Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda.
- bob prif ddeisebwr yn unigol, i roi gwybod iddyn nhw bod gofyn i Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda gyflwyno rhagor o wybodaeth i Lywodraeth Cymru erbyn 5 Ebrill.

### 3.19 P-04-400 Safon Ansawdd NICE ym Maes Iechyd Meddwl

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd yn amlygu pryderon Hafal a Mind Cymru am Ran Dau'r Mesur Iechyd Meddwl a rôl Cymru yn natblygiad safonau NICE.

### 3.20 P-04-440 Dywedwch 'Na' i werthu asedau Ysbyty Bronllys

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Brycheiniog a Maesyfed Cyngor Iechyd Cymuned i rannu gohebiaeth y deisebwr a cheisio ei farn am y ddeiseb.

Yn ogystal, nododd y Pwyllgor bod Andrew Cottom, prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Powys, yn barod i fod yn bresennol mewn sesiwn graffu ynghylch y ddeiseb. O dan yr amgylchiadau hynny byddai'r prif ddeisebwr hefyd yn cael gwahoddiad i gyflwyno ei achos.

### 3.21 P-04-451 Achub Gwasanaethau Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf i holi a fyddai modd iddo ystyried y ddeiseb fel rhan o'r ymgynghoriad ar ad-drefnu gwasanaethau.

### 3.22 P-03-263 Rhestru Parc y Strade

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- geisio barn y deisebwyr ar ohebiaeth y Gweinidog; ac
- ysgrifennu at y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ofyn a fyddai modd cynnwys y ddeiseb fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil Treftadaeth arfaethedig.

### 3.23 P-04-322 Galw am ryddhau gafael Cadw ar eglwysi yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am ragor o wybodaeth am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

### 3.24 P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ofyn a fydd y safle wedi ei gynnwys, unwaith bydd y rhestr leol wedi ei chytuno.

### 3.25 P-04-381 Adfer Ysbyty Gogledd Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb ac yn wyneb y gwaith sy'n mynd rhagddo gan Gyngor Sir Ddinbych i ddiogelu'r adeilad, cytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.26 P-04-403 Achub Plas Cwrt yn Dre/ Hen Senedd-dy Dolgellau

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i geisio ei farn am ohebiaeth y deisebwr.

### 3.27 P-04-407 Achub Llety Gwarchod Kennard Court ar gyfer Pobl Hŷn

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb, ac yn wyneb datblygiadau, a bod Aelod cynulliad yr etholwr yn ymdrin â hyn, cytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.28 P-04-420 Adeiladu Cofeb i Owain Glyndŵr

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb ac yn wyneb ymateb y deisebwr, cytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.29 P-04-404 Awyrennau Di-Beilot Aberporth

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb, a gan fod y Gweinidog wedi nodi nad yw'n bwriadu tynnu cefnogaeth yn ôl, cytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.30 P-04-414 Swyddi Cymreig

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w chau.

### 3.31 P-03-187 Diddymu'r Tollau ar ddwy Bont Hafren

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb, ac oherwydd na fydd y tollau'n cael eu diddymu yn y tymor byr, cytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.32 P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at;

- Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn bod y Pwyllgor yn cael gwybod canlyniad y cais; a
- Chomisiynydd newydd yr Heddlu ar gyfer Heddlu Dyfed Powys, i'w hysbysu am y ddeiseb.

Rhoddodd Joyce Watson y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei hymweliad diweddar â'r safle, i weld y materion ynghylch diogelwch ffordd ar yr A40 yn Llanddewi Felffre drosti ei hun. Diolchodd y deisebwyr am eu lletygarwch a chytunodd i rannu'r ffotograffau o'r ymweliad gyda'r Pwyllgor.

### 3.33 P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd

### 3.34 P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth;

- yn amlinellu'r dull o weithio a awgrymwyd gan y Gweinidog blaenorol a oedd yn gyfrifol am hyn gan ofyn iddi ac ydyw'n cytuno â'r dull hwn o weithio; ac
- yn ceisio eglurhad am bryd y mae disgwyl y dyddiad cychwyn , gan egluro bod dyddiadau gwahanol wedi cael eu cyflwyno.

Cytunodd y Pwyllgor i gau P-04-261 yn wyneb penderfyniad Llywodraeth Cymru i fynd ymlaen â'r ffordd osgoi.

### 3.35 P-04-380 Dewch â'n bws yn ôl! Deiseb yn erbyn diddymu'r gwasanaethau bws o ddwyrain Llanbedr Pont Steffan, Cwm-ann a Phencarreg

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i geisio barn y deisebwr am yr ohebiaeth gan y Gweinidog.

### 3.36 P-04-453 Gwelliannau ym Maes Awyr Caerdydd

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb, ac yn wyneb y ffaith bod y deisebwr wedi nodi bod cyhoeddiad y Prif Weinidog wedi cyflawni ei hamcanion, cytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.37 P-04-436 Gwariant a Refeniw Llywodraeth Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i geisio barn y deisebwr am ohebiaeth y Gweinidog.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunwyd ar y cynnig.

## 5. P-04-335 Sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru: Adroddiad draft

Cytunodd y Pwyllgor â'r adroddiad drafft.

Diolchodd y Cadeirydd yr Aelodau am ddod ac am gyfrannu – a dymunodd Basg hapus i bawb.